## ATODIAD 1

# YMATEBION DRAFFT GAN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB I'R MATERION A GODWYD GAN Y RHAI YR YMGYNGHORWYD Â HWY YNGHYLCH CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT 2009-10.

| Ris g | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| | **ADOLYGU'R TREFNIANT SWYDDOGION WRTH GEFN** | | |
| **1** | Y safbwynt mai llawn cystal fyddai tynnu'r cynnig hwn allan gan fod yr adolygiad o'r trefniant swyddogion wrth gefn eisoes wedi ei gwblhau, a bod system sicrwydd yr ochr weithredol eisoes wedi cychwyn. | Fel yn y blynyddoedd a fu, mae'r rhai a ymatebodd wedi rhoi sylwadau o ddau safbwynt cyferbyniol:<br>a) bod rhaid bod yr Awdurdod gwneud ei benderfyniadau eisoes gan nad yw lefel y manylion a nodir gyda'r cynigion yn caniatáu dim lle ar gyfer gwelliannau wedi'r ymgynghoriad, neu,<br>b) bod yr Awdurdod yn ansicr o'i gynigion ei hun gan nad yw lefel y manylion a nodir gyda nhw yn ddigonol.<br><br>Mae'r Awdurdod yn ceisio cael cydbwysedd rhwng cyflwyno cynigion amlinellol er mwyn i bobl gyfrannu eu safbwyntiau eu hunain ynghylch y ffordd yr hoffent weld datblygu'r cynigion, a pharhau i weithio ar rai o'r manylion er mwyn asesu'r effaith ac i dynnu allan rai rhwystrau posib.<br><br>Mae manylion y cynnig yn dal i gael ei ddatblygu yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law a thrafodaethau parhaus gyda'r rhanddeiliaid. | 1) |
| **1** | Y safbwynt fod y cynnig hwn i'w weld fel petai wedi ei dderbyn eisoes, heb ymgynghori digonol. | | 2) |
| **1** | Y safbwynt fod yr adolygiad hwn wedi ei gychwyn eisoes er bod y cynigion yn dal dan ymgynghoriad. | | 3) |
| **1** | Y safbwynt bod yr adolygiad ei hun wedi ei gynnal eisoes ac yn barod i gael ei weithredu, gan wneud y cyfnod ymgynghorol yn wastraff amser. | | 4) |
| 1 | Sylw gan Undeb yr FBU nad yw'n anghytuno â chysyniad y cynnig sy'n ymwneud â gwella'r opsiwn ymateb ac yn darparu sicrwydd yr ochr weithredol mewn digwyddiadau. | Mae'r Awdurdod wedi ei galonogi gan fynegiant o gefnogaeth fel hyn. | 5) |
| **1** | Cwyno nad oedd digon o gyfle i werthuso manylion y cynigion hyn a gyflwynwyd tua diwedd y cyfnod ymgynghori. Bydd angen rhagor o amser i ystyried er mwyn cymryd rhan yn iawn yn y broses. | Byddai raid gwerthuso'n barhaus a gwneud newidiadau ychwanegol, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r newid hwn. | 6) |
| **1** | Cytuno y byddai hyn yn galluogi buddsoddi mewn rhannau eraill o'r Gwasanaeth. | Fel y nodwyd eisoes, mae manylion effaith lwyr y newidiadau – yn cynnwys yr effaith ar y gyllideb – yn dal i gael eu datblygu, gan ystyried y sylwadau sy'n codi o'r ymgynghoriad. | 7) |
| **1** | Y safbwynt y byddai'r trefniant sy'n cael ei arfaethu o ran swyddogion yn costio mwy mewn cyflogau, cludiant, hyfforddiant, llety, technoleg gwybodaeth a chostau pontio. | | 8) |

DRAFT

DRAFT

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| **1** | Cytuno y dylid adolygu trefniant y swyddogion wrth gefn, ond pryder y byddai'n rhaid i gostau ychwanegol y newid i'r system newydd ddod allan o gyllidebau eraill, ac nad yw staff y System Dyletswydd Ran Amser wedi cael llais yn archwilio'r trefniadau arfaethedig o ran eu heffaith ar y System honno. | | 9) |
| **1** | Atgoffa ei bod yn bwysig cynnwys costiadau llawn yn y cynlluniau, yn cynnwys argostau cyflogau sy'n gallu bod gryn dipyn yn uwch na chostau cyflogau yn unig. | | 10) |
| **1** | Pryder y byddai'r system rota system, sy'n greiddiol i'r strwythur newydd, yn amhosib ei gweithio ac yn risg difrifol i'r sefydliad. | Nodwyd y pryderon a'r atgofion hyn. Bydd pob agwedd yn cael ei hasesu cyn, ac yn ystod, y gwaith o'u rhoi ar waith fel rhan o brosesau rheoli newid. | 11) |
| **1** | Rhybudd bod y newidiadau arfaethedig yn llawn peryglon, ac y dylid eu hailystyried. | | 12) |
| **1** | Atgoffa na fydd staff sydd heb fod yn gweithio shifftiau, ar gael pan fo staff y System Dyletswydd Ran Amser am gysylltu â hwy, neu pan fo'r cyhoedd am gael Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (sef gyda'r nosau ac ar y penwythnosau). | | 13) |
| **1** | Pryderus y bydd y cyfrifoldeb o ran rheolaeth llinell am orsafoedd rhan amser yn ddryslyd ar adeg treiglo'r newid arfaethedig hwn, y byddai ei weithredu'n costio cryn dipyn, a bod angen eglurhad ynghylch swyddi'r Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr yn gyntaf. | | 14) |
| **1** | Awgrymu nad yw'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r adolygiad o drefniant y swyddogion wrth gefn yn ystyried am faint o amser y mae'r swyddogion yn ei dreulio mewn digwyddiadau. Petai rhywun yn dod yn eu lle ar ôl 4 awr, yna byddai angen galw rhagor i mewn. | | 15) |
| **1** | Y safbwynt bod cyfle yn cael ei golli i ddefnyddio staff y Ddyletswydd Ran Amser fel opsiwn hyblyg i atgyfnerthu'r niferoedd sydd ar gael yn weithredol. | | 16) |
| **1** | Awgrymu y dylid cynnal adolygiad llawn o holl swyddogion yr Ochr Weithredol a'r Ochr Dactegol cyn cwblhau'r cynnig er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar eu gwaith o ddydd i ddydd wedi cael ei ystyried. | | 17) |
| **1** | Y safbwynt y dylai'r newidiadau arfaethedig ystyried y llwybrau gyrfa sydd ar gael i staff fynd yn eu blaenau trwy'r Gwasanaeth. | | 18) |
| **1** | Dylid atal unrhyw waith ynghylch strwythur newydd ar gyfer swyddogion am y tro, hyd nes bydd y broses ymgynghori wedi ei chwblhau. | Mae'r Awdurdod yn awyddus i osgoi llesgedd, ac i gynnal trafodaeth agored ac adeiladol gyda'r rhanddeiliaid trwy gydol y cyfnod o roi'r newidiadau ar waith. | 19) |
| **1** | Ni ddylid cyflwyno trefniadau newydd yngylch swyddogion wrth gefn, hyd nes bydd y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn rhoi adborth cadarnhaol. | | 20) |
| **1** | Dylai'r Awdurdod Tân, y rheolwyr ac Undeb yr FBU fod yn rhan o'r adolygiad o drefniant swyddogion wrth gefn. | | 21) |

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| **1** | Cynnig gan Undeb yr FBU i gymryd rhan mewn unrhyw adolygiad ynghylch Swyddogion. | | 22) |
| **1** | Os bydd rhagor o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn cael eu cynnal gan staff ar delerau ac amodau'r 'llyfr gwyrdd' a staff wedi eu symud o'r peiriannau ysgol ac esgynlawr (*ALPs*), pryder y bydd hynny'n effeithio ar lwyth gwaith a thaliadau staff y System Dyletswydd Ran Amser. | Mae'r Awdurdod yn ddiolchgar am sylw'n atgoffa fod newidiadau yn unrhyw ran o waith y Gwasanaeth yn anochel yn effeithio ar rannau eraill, ac mae'n parhau'n ymrwymedig i gael y cydbwysedd yn iawn. | 23) |
| **1** | Pryder fod anghydbwysedd o ran gorbwysleisio'r gwaith Diogelwch Tân Cymunedol ar draul hyfforddiant i gynnal argaeledd parod yr ochr weithredol. | | 24) |
| **1** | Awgrymu y dylai nifer staff wrth gefn fod yn seiliedig ar y sefyllfaoedd gwaethaf posib yn hytrach na thebygolrwydd. | Nodwyd y pryderon hyn. | 25) |
| **1** | Pryder na fydd y ddamcaniaeth yn cael ei phrofi mewn realiti. | | 26) |
| **1** | Pryder y gellid herio'r newidiadau i'r rotas ar sail ystyriaeth i deuluoedd neu ystyriaethau iechyd a diogelwch. | | 27) |
| | | | |
| | **SWYDDI'R PEIRANNAU AG YSGOL AC ESGYNLAWR (*AERIAL LADDER PLATFORM (ALPs*))** | | |
| **2** | Pryder nad yw'r cyhoedd efallai'n ymwybodol y byddai peidio â symud y 12 swydd ALP i waith Diogelwch Tân Cymunedol, ac efallai gael staff ar delerau ac amodau'r 'llyfr gwyrdd' yn eu lle, mewn gwirionedd yn golygu gostyngiad yn nifer y swyddi ar delerau ac amodau'r 'llyfr llwyd'. | Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'r cyhoedd sy'n ddeallus ac â hawl i ddisgwyl gwasanaethau o safon uchel am bris fforddiadwy. Mae cael cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb hefyd yn hen ddisgwyliad gan y llywodraeth.<br><br>Trwy barhau i ystyried ffyrdd newydd o fynd ati, mae'r Awdurdod yn gallu cael cydbwysedd rhwng y manteision sy'n dod o arloesi, o'u cymharu ag ailadrodd y trefniadau a fu. Nid yw aelodau'r cyhoedd yn cael eu camarwain. | 28) |
| **2** | Mynegi safbwynt na all y Gwasanaeth fforddio anwybyddu'r arbedion o ran cost y gellid eu cael trwy ddefnyddio staff y Ddyletswydd Ran Amser (*RDS*) i gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn hytrach na staff drutach y system dyletswydd lawn amser a fyddai'n cael eu symud o'r Peiriannau ALP. | Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i'r tasgau perthnasol, gan ystyried ystod eang o ffactorau a allai effeithio ar lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a'r effeithiau cysylltiedig ar y gyllideb. | 29) |
| **2** | Awgrymu y byddai symud staff y Peiriannau ALP, sydd ar well telerau a threfniadau pensiwn, yn ffordd ddrud i ddarparu'r Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref pan fo gan y Gwasanaeth eisoes ymarferwyr Diogelwch Tân Cymunedol ar delerau ac amodau'r 'llyfr gwyrdd' (llywodraeth leol). | | 30) |

DRAFT

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| **2** | Rhoi'r achos gerbron ynghylch cael criwiau'r Peiriannau ALP fel peiriannau'r system ran amser yn eu lleoliadau presennol neu ar orsafoedd rhan amser. | | 31) |
| **2** | Pryder na ellir cyrraedd y safon o ymateb mewn 20 munud oni bai mai criwiau cyntaf sydd ar yr ALPs. | | 32) |
| **2** | Pryder y byddai newid criwiau cyntaf yr ALPs yn arwain at 'hunllef' o ran trefnu, yn enwedig ar adegau digwyddiadau mawr a phan nad oes digon o griwiau'r system dyletswydd ran amser ar gael, neu pan nad oes neb i weithredu'r ALP ymhlith criwiau'r ddyletswydd ran amser. | | 33) |
| **2** | Cwyn nad oes digon o fanylion er mwyn gallu ffurfio barn. | Fel y nodwyd eisoes, mae manylion effeithiau llawn y newidiadau yn dal i gael eu datblygu, gan ystyried y sylwadau sy'n codi o'r ymgynghoriad. Bydd yr Awdurdod, trwy ei uwch reolwyr, yn darparu gwybodaeth ac yn cynnal trafodaeth gyda'r rhanddeiliaid trwy gydol y cyfnod o weithredu'r newid. | 34) |
| **2** | Y safbwynt y dylid tynnu'r cynnig hwn allan gan nad oes neb yn deall goblygiadau'r cynnig. Dylid darparu gwybodaeth ynghylch cydnerthedd, dethol, patrymau shifftiau, cludiant, lle gwaith, hyfforddiant ayyb. | | 35) |
| **2** | Cwyn nad oes digon o fanylion ar gael, a bod rhai cwestiynau heb eu hateb. A fydd y 12 aelod o staff yn y swyddi hyn yn parhau ar yr orsaf, ynteu yn cael eu symud i Ddiogelwch Tân Cymunedol yn llawn amser? A fydd nifer y swyddi ar y gwylfeydd yn cael eu gostwng? A fydd swyddi, a greeir gyda thelerau ac amodau'r 'llyfr gwyrdd' (llywodraeth leol), yn dod yn eu lle? | | 36) |
| **2** | Gofyn a fydd staff yr ALPs a fyddai'n cael eu hadleoli, yn newid o'u system shifftiau presennol i system dyletswydd dydd. | | 37) |
| **2** | Y safbwynt fod y penderfyniad i beidio â chael criw cyntaf ar yr ALPs yn gam yn ôl i'r Awdurdod. | | 38) |
| | | | |
| | **TREFNIADAU ARLWYO** | | |
| **3** | Cwestiynu a oes angen i'r cyhoedd roi barn ynghylch y cwestiwn o gael cogyddion mewn gorsafoedd ar gyfer staff. | Mae'r Cynlluniau Lleihau Risg yn cydbwyso elfennau cymunedol a chorfforaethol gwaith yr Awdurdod, gan gydnabod nad yw'r naill na'r llall yn bodoli ar wahân i'w gilydd.<br><br>Efallai nad yw'r cyhoedd yn ystyried trefniadau arlwyo'r Gwasanaeth yn risg, ond mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwario arian cyhoeddus yn bwysig o ran lleihau risg yn ehangach.<br><br>Rhagwelir y byddai adolygiad o'r trefniadau arlwyo yn canolbwyntio ar fwy na dim ond cyflogi cogyddion, sydd ddim ond yn un rhan o ddarparu cyfleusterau lles ar gyfer y staff. | 39) |
| **3** | Y safbwynt mai mater bychan yw hwn, ac y dylid bod wedi ei drin fel mater i'r rheolwyr yn hytrach na'i nodi fel cynnig dros ddwy flynedd yn y cynllun lleihau risg. Mae ei gynnwys yn y fan hon yn gwneud y broses yn un wamal. | | 40) |
| **3** | Gofyn ai'r prif fater yw cyllido cogyddion, ynteu pa mor gynhyrchiol yw criwiau sy'n dychwelyd i'r orsaf i gael egwyl yn ystod y diwrnod gwaith? | | 41) |
| **3** | Cytuno y dylid bwydo criwiau tân sydd mewn achosion o dân am gyfnodau estynedig, ac y dylid edrych ar yr anghysonderau rhwng gorsafoedd, o ran y trefniadau arlwyo. | | 42) |
| **3** | Y safbwynt nad yw cael cogyddion ar orsafoedd yn risg o gwbl i'r cyhoedd. | | 43) |

DRAFT

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| **3** | Y safbwynt fod gan y rhan fwyaf o bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â gogledd Cymru bethau amgenach i feddwl amdanynt na chogyddion ar orsafoedd tân. | | 44) |
| **3** | Y safbwynt y dylid tynnu'r cynnig hwn o'r ddogfen ar unwaith ar sail y ffaith nad yw'n berthnasol o gwbl i leihau risg. | | 45) |
| **3** | Gofyn ers pryd y mae cogyddion ar orsafoedd yn risg i'r Gwasanaeth? | | 46) |
| **3** | Cwyno na ddarparwyd digon o fanylion i allu ffurfio barn ynghylch hyn. | | 47) |
| **3** | Y safbwynt na fydd adolygu'r trefniadau presennol o ran arlwyo yn lleihau'r risg i'r Gwasanaeth na'r cyhoedd. | | 48) |
| **3 & 4** | Y safbwynt nad oes diben cynnwys cynnig 3 a 4 gan nad ydynt yn golygu risg i'r cyhoedd. | | 49) |
| | | | |
| | **GWEITHGOR ADOLYGU RISG** | | |
| **4** | Cytuno bod hyn yn syniad da, ond cwestiynu a oes wir angen cymeradwyaeth y cyhoedd er mwyn gallu parhau. | Mae'r Awdurdod wedi ei galonogi gan y gefnogaeth i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. | 50) |
| **4** | Y safbwynt na ddylid gadael hyn tan Gynllun Lleihau Risg 2009-10 – dylid bwydo'r canfyddiadau i wella gwasanaethau cyn hynny. | | 51) |
| **4** | Atgoffa fod gweithgorau wedi cael eu sefydlu yn y gorffennol, a chwestiynu a yw'r cynnig hwn yn un a ddylai mewn gwirionedd gael ei gynnwys yn y ddogfen. | | 52) |
| **4** | Y safbwynt y dylid tynnu'r cynnig hwn o'r ddogfen. | | 53) |
| **4** | Y safbwynt na ellir ystyried hyn yn risg, ac y dylid ei dynnu o'r ddogfen. | | 54) |
| **4** | Cefnogi sefydlu gweithgor newydd ar gyfer Cynllun Lleihau Risg 2010 – 2011. | | 55) |
| **4** | Cais gan Undeb yr RFU i fod yn rhan o'r gweithgor er mwyn sicrhau bod buddiannau ei aelodau'n cael eu hystyried. | | 56) |
| | | | |
| | **SYLWADAU CYFFREDINOL** | | |
| **G** | Tynnu sylw at y ffaith fod staff y system lawn-amser, yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag adolygu'r trefniadau dyletswydd o ran y criwiau tân llawn-amser, bellach yn cael eu taliadau goramser er mwyn cael staff wrth gefn ar orsafoedd y system dyletswydd ran amser. Byddai adolygu'r trefniadau dyletswydd wedi gwneud hyn heb oblygiadau ariannol. | Mae'r Awdurdod yn awyddus i wneud cynnydd nawr gyda gwella gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, gan ddysgu gwersi'r gorffennol ond heb i'w sylw gael ei dynnu i gyfeiriad llesgedd. | 57) |

**Comment [m1]:** Be ydi arwyddocâd 'g'?

DRAFT

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| G | Y safbwynt fod blwyddyn arall wedi mynd heibio heb fawr o gynnydd i'w weld o ran staff y system dyletswydd ran amser, sef y rhan fwyaf niferus a hyblyg o'r gweithlu. | | 58) |
| G | Awgrymu y dylai'r Awdurdod gael gwybod faint o bobl sydd yn wir yn darllen y Cynllun Lleihau Risg. | | 59) |
| G | Y safbwynt na ddylid bwrw ymlaen gyda cynigion y ddogfen ymgynghorol hyd nes y bydd y broses ymgynghori wedi gorffen. | | 60) |
| G | Siomedig at safon wael y ddogfen ymgynghorol, ac awyddus i'r Awdurdod ymchwilio i'r rhesymau pam y cafodd dogfen mor wael ei llunio a'i chyhoeddi ar gyfer y cyhoedd. | | 61) |
| G | Y safbwynt y dylid ail-lunio'r cynllun lleihau risg i ymgorffori'r buddsoddiad yn y system dyletswydd ran amser. | | 62) |
| G | Y safbwynt y dylid cadw at y gwerthoedd craidd yng nghynlluniau lleihau risg y dyfodol. | Nodwyd y sylwadau hyn. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gadw at y gwerthoedd craidd, ac i'w hannog yn gryf, bob amser. | 63) |
| G | Cwyn bod y gwerthoedd craidd wedi cael eu hanwybyddu oherwydd nad ymgynghorwyd â'r staff ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u gyrfaoedd. | | 64) |
| G | Cwyno na ddylai'r tîm rheoli, os bydd yr Awdurdod Tân yn cynnal proses ymgynghori, gymryd canlyniad y broses honno yn ganiataol. | Nodwyd y sylwadau hyn. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal trafodaeth adeiladol gyda'i holl randdeiliaid. | 65) |
| G | Cwyno nad yw Undeb yr FBU, yn wahanol i'r adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol yn 2002, wedi cael cyfle i gyfrannu awgrymiadau, syniadau a datrysiadau eraill heblaw am fynychu cyflwyniad gan y rheolwyr ddiwedd mis Awst. | | 66) |
| | | | |
| | **AWGRYMIADAU ERAILL** | | |
| Alt | Awgrymu y dylai staff sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth yng nghyfarfodydd partneriaethau fod ar lefel Rheolwr Grŵp o leiaf, er mwyn bod yn effeithiol. | Mae'r Awdurdod yn ddiolchgar am yr awgrymiadau eraill hyn i'w cynnwys yn y Cynllun Lleihau Risg.<br><br>Oherwydd y graddfeydd amser i gwrdd â'r gofyniad i gyhoeddi'r cynllun gweithredol blynyddol hwn erbyn Hydref 31ain 2008, bydd cynigion cwbl newydd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn yr un nesaf sydd i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2009. | 67) |
| Alt | Annog yr Awdurdod i ffurfioli'r grŵp sydd wedi cael y dasg o edrych ar faterion y System Dyletswydd Ran Amser o fewn ei Gynllun Lleihau Risg, ac i gael hyrwyddwr y system a hwnnw/honno ag adnoddau digonol, i wneud argymhellion cryf a chyfeiriad strategol. | | 68) |
| Alt | Awgrymu, gan fod llifogydd yn dod yn fwy o broblem i griwiau, y dylid ei gynnwys yn y cynllun gan fod angen cyllid i brynu offer, offer gwarchod personol, hyfforddiant ac argaeledd o ran staff y ddyletswydd ran amser. | | 69) |
| Alt | Awgrymu y dylid cynnwys rhagor o faterion yr ochr weithredol, yn dilyn nifer o achosion trasig o farwolaethau ymysg diffoddwyr tân. | | 70) |

DRAFT

| Risg | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb drafft gan yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|
| **Alt** | Pryderus nad yw 'cyd-ymateb', er iddo gael ei gynnwys yn nogfen y fframwaith cenedlaethol a chael ei drafod dros nifer o flynyddoedd, wedi cael ei dreialu gan GTAGC. | | 71) |
| **Alt** | Gofyn i'r Awdurdod ymdrin â mater gwella mynediad TG i wybodaeth electronig ar orsafoedd y System Dyletswydd Ran Amser er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli perfformiad. | | 72) |
| **Alt** | Cwestiynu pam y cafodd adolygiadau o'r trefniadau arlwyo ei gynnwys fel risg pan na chafodd ailraddio staff yr ochr gefnogol. | | 73) |

DRAFT